



DATGANIAD O'R CYFRIFON

Am y flwyddyn a oedd

yn diweddu ar

31 Mawrth 2014

Archwiliwyd

W Gwyn Jones, BSc, FCCA
Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau Corfforaethol
Cyngor Sir Ceredigion
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UE
Tel: 01970 617911
E-mail: df.technicians@ceredigion.gov.uk

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



CYNNWYS

	Rhif y Dudalen
Rhagair Esboniadol	2
Datganiad o'r Cyfrifoldebau o ran y Datganiad Cyfrifon	6
Adroddiad yr Archwilydd	8
Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant	10
Symudiadau yn Natganiad Cronfeydd Wrth Gefn	10
Mantolen	11
Nodiadau i'r Datganiad Cyfrifon	12
Datganiad Llywodraethu Blynyddol	21

RHAGAIR ESBONIADOL

Mae Datganiad o Gyfrifon wedi cael ei baratoi i fodloni gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (ac fel y pennir ymhellach yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2005) ac mae'n adlewyrchu'n llawn gofynion y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2013/14 ar gyfer datganiadau cyfrifyddu. Mae'r ddogfen yn cynnig crynodeb o sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyd-bwyllgor a nifer o ddatganiadau cyfrifyddu sy'n dangos amrywiaeth a graddfa, yn nhermau ariannol, weithgareddau'r Cyd-bwyllgor.

CEFNDIR

Mae Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) yn gonsortiw m trafrnidiaeth a sefydlwyd yn 2003 ar gyfer ardal Canolbarth Cymru. Mae'n gyd-bwyllgor wedi'i ffurfio o dri awdurdod lleol Canolbarth Cymru:

- Cyngor Sir Ceredigion County Council
- Cyngor Gwynedd Council (ar gyfer ardal Meirionnydd)
- Cyngor Sir Powys County Council

Nod craidd y consortiw m yw helpu'r tri awdurdod lleol sy'n aelodau i ddatblygu a chyflwyno Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn gynllun statudol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Mae TraCC yn darparu'r cymorth hwn drwy ei rôl, sef:

- Datblygu ac adolygu polisiâu, cynlluniau a strategaethau trafrnidiaeth lleol/rhanbarthol cyffredin (h.y. Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol)
- Cyfrannu at ddatblygu polisiâu, cynlluniau a strategaethau'r llywodraeth genedlaethol a phartneriaid eraill
- Datblygu a rheoli rhaglenni cyllid grant priffyrdd a thrafrnidiaeth rhanbarthol (ar gyfer gwasanaethau bws cyfyngir hyn i ardaloedd Cyngor Ceredigion a Chyngor Powys)
- Blaenoriaethu a gweinyddu grantiau cyllido priffyrdd a thrafrnidiaeth rhanbarthol
- Ymgymryd â gwaith monitro, gwerthuso ac adrodd ar effeithiau cynlluniau rhanbarthol a rhaglenni cyllido (h.y. Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol)
- Darparu cymorth a chyngor arbenigol ar gynllunio teithio, teithio gweithredol ac amgylcheddol gynaliadwy ar draws Canolbarth Cymru, a
- Lloio gwleidyddol i gefnogi polisiâu a rhaglenni cyllido rhanbarthol.

Ar gyfer 2013/14, roedd cyfrifoldeb ychwanegol ganddo i weinyddu cymorth ar gyfer gwasanaethau bws, a arferai fod yn gyfrifoldeb yr Adran Trafnidiaeth ac Awdurdodau Lleol unigol.

Cyngor Sir Ceredigion yw'r "Awdurdod Cyllid Arweiniol" dynodedig ar ran TraCC, a'r Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau Corfforaethol yw'r Swyddog Adran 151 a'r Trysorydd ar gyfer y Cyd-bwyllgor. Cyngor Sir Powys oedd yr "Awdurdod Cyllid Arweiniol" tan Ebrill 2010 pan wnaeth Cyngor Sir Ceredigion ymgymryd â'r rôl.

Cyngor Sir Ceredigion yw'r "Awdurdod Arweiniol" hefyd ar gyfer darparu'r swyddogaeth Adnoddau Dynol i gyllido staff y Tîm Craidd a rolau'r Swyddog Cyfreithiol a Monitro ar ran TraCC.

Crynodeb o berfformiad ariannol Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) am y flwyddyn 2013/4.

PERFFORMIAD ARIANNOL O'I GYM HARU Â'R GYLLIDEB 2013/14

2012/13 Gwirioneddol		2013/14 Gwirioneddol	2013/14 Cyllideb Wreiddiol	Amrywedd i'r Gyllideb
£		£	£	£
508,932	Cyfanswm Gwariant	6,466,232	5,583,382	(882,850)
508,932	Cyfanswm Incwm	6,466,232	5,583,382	(882,850)
0 Net		0	0	0

Y prif amrywedd rhwng y Gyllideb Wreiddiol a'r Gwariant Gwirioneddol yn 2013/14 oedd fel a ganlyn:

- O Orffennaf 2014, penderfynodd Llywodraeth Cymru y byddi'r gwaith o reoli'r holl gyllid Teithio Rhatach yn cael ei sianelu i'r Awdurdodau Lleol drwy'r Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol.
O ganlyniad cafwyd gwariant ac incwm ychwanegol hyd at werth £1,481,005. Nid oedd hyn yn amodol ar gymeradwyaeth grant ffurfiol a thalwyd y gwariant gwirioneddol yn llawn gan Lywodraeth Cymru.
- Rhodddwyd cymeradwyaeth ychwanegol tuag at gynllun i gynyddu cyllid cyfatebol ar gyfer cynllun Gorsaf Reilffordd Machynlleth - Mynediad i Bawb yn ystod y flwyddyn, ond fe'i tynnwyd yn ôl gan Lywodraeth Cymru yn Chwefror 2014 (effaith net o £600,000).
- Derbyniwyd incwm mân arall yn ychwanegol at grantiau'r Llywodraeth sy'n gysylltiedig â'r ddwy eitem hyn (£1,844).

GWARIANT

Crynodeb o'r gwariant dros y ddwy flynedd ddiwethaf

	2013/14 £	2012/13 £
Gweithwyr	130,826	99,021
Cludiant	787,244	2,999
Cyflenwadau a Gwasanaethau	5,532,267	406,912
Taliadau Trydydd Parti	15,895	0
Cyfanswm	6,466,232	508,932

ESBONIAD AM Y CYN NYDD 2012/13 A 2013/14

Rhodddwyd cyfrifoldebau ariannol ychwanegol i TraCC ar gyfer 2013/14. Cyn hyn roedd grantiau ar gyfer prosiectau penodol o dan Gynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol a Diogelwch Ffyrdd yn amodol ar flaenoriaethu a chymorth TraCC,

ond roedd y trefniadau ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol unigol. O Ebrill 2013 daeth TraCC yn gyfrwng ar gyfer y ceisiadau a thaliadau grant hyn yn yr ardal drwy Gyngor Sir Ceredigion fel yr awdurdod cyllid arweiniol. Cafodd dyletswyddau ychwanegol ar gyfer gweinyddu'r Grant Gwasanaethau Bws, sef y Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Lleol gynt a'r Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bws (wedi'i weinyddu cyn hynny gan yr Adran Drafnidiaeth) eu trosglwyddo i bob Consortiwm Rhanbarthol.

Mae'r dadansoddiad canlynol yn amlinellu'r cyfrifoldebau ychwanegol:

	2013/14	2012/13
	£	£
Cyllid Craidd	165,006	166,929
Rhaglen Trafnidiaeth Rhanbarthol	2,618,000	172,767
Mentrau Diogelwch ar y Ffyrdd	503,000	0
Gwasanaethau Bws	1,699,221	0
Tocynnau Teithio Rhatach	1,481,005	0
Adolygiad Cyllid Bysiau	0	169,236
Cyfanswm	6,466,232	508,932

FFYNONELLAU CYLLID

Crynodeb o'r cyllid am y ddwy flynedd ddiwethaf:

	2013/14	2012/13
	£	£
Grantiau'r Llywodraeth	6,464,388	505,236
Incwm Arall	1,844	3,696
Cyfanswm	6,466,232	508,932

Mae'r cynnydd yn y cyllid i'w briodoli i'r cyllid a dderbyniwyd mewn perthynas â'r dyletswyddau ychwanegol a gafwyd (gweler uchod).

Y DYFODOL

Yn Ionawr 2014, cyhoeddodd y Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth y byddai sianelu grantiau ar gyfer y gweithgareddau cysylltiedig â thrafnidiaeth drwy'r Consortia Rhanbarthol yn dod i ben, a byddai'r grantiau sydd ar gael yn cael eu dyrannu'n uniongyrchol unwaith eto i'r awdurdodau lleol, rhai ar sail gystadleuol. Byddai awdurdodau lleol yn gallu cydweithio i gyflwyno ceisiadau ar y cyd. I'r diben hwn, byddai gweithgareddau ariannol uniongyrchol TraCC yn dod i ben o 1 Ebrill 2015. Byddai cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i'r awdurdodau lleol, rhai ar sail gystadleuol. Er na fydd TraCC ag unrhyw ddyletswyddau ariannol mwyach, mae wedi penderfynu parhau i gydweithio ar Gynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a gwneud cais am unrhyw gynlluniau rhanbarthol neu gydweithredol yn y tymor byr.

RHAGOR O WYBODAETH

Mae gan bawb sydd â diddordeb hawl statudol i weld y Cyfrifon, yn ystod arolygiad cyhoeddus, cyn cwblhau'r archwiliad blynyddol. Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth neu esboniad ynglŷn â'r Cyfrifon, cysylltwch â:

Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau Corfforaethol
Cyngor Sir Ceredigion
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UE
Ffôn: (01970) 617911
E-bost: df.technicians@ceredigion.gov.uk

DATGANIAD O'R CYFRIFOLDEBAU O RAN Y DATGANIAD CYFRIFON

CYFRIFOLDEBAU'R CYD-BWYLLGOR

Mae'n ofynnol i'r Cyd-bwyllgor:

- wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hyn. Yn y Cyd-bwyllgor hwn, y swyddog yma yw Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir Ceredigion.
- yn rheoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o'i adnoddau a diogelu ei asedau;
- cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

Cadeirydd y Cyd-bwyllgor

23 Medi 2014

CYFRIFOLDEBAU CYFARWYDDWR STRATEGOL ADNODDAU CORFFORAETHOL

Mae'r Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau Corfforaethol yn gyfrifol am baratoi Datganiad o Gyfrifon y Cyd-bwyllgor yn unol â'r arferion priodol a bennir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig ('y cod').

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, mae'r Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau Corfforaethol wedi:

- dewis polisiau cyfrifyddu addas a'u defnyddio mewn modd cyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol ac yn ddarbodus;
- cydymffurfio â'r Cod Ymarfer.

Mae'r Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau Corfforaethol hefyd wedi:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a chyfredol;
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

**ARDYSTIAD Y CYFARWYDDWR STRATEGOL ADNODDAU
CORFFORAETHOL**

Tystiaf fod y Datganiad o Gyfrifon yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) ar y dyddiad cyfrifyddu a'i incwm a gwariant am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2014.

Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau Corfforaethol

23 Medi 2014

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I AELODAU TRAFNIDIAETH CONOLBARTH CYMRU (TRACC)

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ac y Fantolen.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2013-14 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen 6 mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Cynhelir archwiliad er mwyn cael digon o dystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisiâu cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Eglurhaol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel pe bai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC)

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) ar 31 Mawrth 2014 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2013-14.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair Eglurhaol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno o ran y Datganiad Llywodraethu Blynyddol y cyflwynaf adroddiad i chi yn ei gylch os na fydd, yn fy marn i, yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Ar dystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Llofnod

Dyddiad.....

Enw: Anthony Barrett**Archwilydd Penodedig****Cyfeiriad: Swyddfa Archwilio Cymru****24 Heol y Gadeirlan****Caerdydd. CF11 9LJ****Cyhoeddi datganiadau ariannol yn electronig**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw cynnal gwefan Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) ac uniondeb y wefan. Nid yw'r gwaith a gyflawnwyd gan yr archwilydd yn cynnwys ystyried y materion hyn, ac felly nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all fod wedi'u gwneud i'r Datganiad o Gyfrifon ers iddynt gael eu cyflwyno yn y lle cyntaf ar y wefan.

MANTOLEN

Mae'r datganiad hwn yn dangos gwerth asedau a rhwymedigaethau a gydnabyddir gan y Cyd-bwyllgor ar 31 Mawrth 2014.

31 Mawrth 2013		31 Mawrth 2014
£		£
	ASEDAU PRESENNOL	
<u>230,765</u>	Dyledwyr Tymor Byr	<u>1,896,917</u>
230,765		1,896,917
	RHWYMEDIGAETHAU PRESENNOL	
<u>(230,765)</u>	Credydwyr Tymor Byr	<u>(1,896,917)</u>
(230,765)		(1,896,917)
	0 LLAI RHWYMEDIGAETHAU	0

NODIADAU I'R DATGANIAD CYFRIFON

1. POLISIAU CYFRIFYDDU

i. Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn ariannol 2013/14 a'i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2014. Mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor baratoi Datganiad o Gyfrifon blynyddol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, ac mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae'r arferion hyn yn cynnwys yn bennaf y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2013/14 a Chod Ymarfer Adrodd am Wasanaeth ar gyfer Awdurdodau Lleol 2013/14, wedi'i ategu gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Mae'r cytundeb cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad Cyfrifon yn bennaf gost hanesyddol, a gymhwyswyd drwy ailbrizio categorïau penodol o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

ii. Croniadau o Incwm a Gwariant

Caiff gweithgaredd ei chyfrifyddu yn y flwyddyn y mae'n digwydd, nid pan fo taliadau ariannol yn cael eu gwneud neu eu derbyn. Yn arbennig:

- Cydnabyddir refeniw o werthu nwyddau pan fydd y Cyd-Bwyllgor yn trosglwyddo'r risgiau a buddiannau sylweddol perchnogaeth i'r prynwr ac mae'n debygol fod buddiannau economaidd neu bosibilrwydd y gwasanaeth sydd yn gysylltiedig â'r trafodion yn llifo i'r y Cyd-Bwyllgor.
- Cydnabyddir refeniw o ddarparu gwasanaethau pan gall y Cyd-Bwyllgor fesur canran cwblhau'r trafodion yn ddibynadwy a'i bod yn debygol fod buddiannau neu wasanaeth posibl sydd yn gysylltiedig a'r weithred yn llifo i'r Cyd-Bwyllgor.
- Cofnodir cyflenwadau fel gwariant lle defnyddir hwy – lle mae bwllch rhwng y dyddiad y derbynnir cyflenwadau a'u defnyddio, cânt eu cario fel stocrestr ar y Fantolen
- Cofnodir treuliau yng nghyswllt gwasanaethau a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaethau a ddarparwyd gan weithwyr) fel gwariant pan dderbynnir gwasanaethau yn hytrach na thaliadau.
- Lle cydnabuwyd refeniw a gwariant ond na dderbyniwyd ac na thalwyd arian parod, bydd dyledwr neu gredydwr am y swm perthnasol yn cael ei gofnodi yn y Fantolen. Lle nad yw dyledion yn cael eu setlo, mae balans y dyledwyr yn cael eu cynnwys a chodir tâl ar refeniw ar gyfer yr incwm na fydd efallai yn cael ei gasglu.

iii. Eitemau Eithriedig

Pan fo eitemau o incwm a gwariant yn sylweddol, caiff eu natur a'u swm ei ddatgelu ar wahân, naill ai ar wyneb y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant neu yn y nodiadau i'r cyfrifon, yn ddibynol ar ba mor arwyddocaol yw'r eitemau i ddeall perfformiad ariannol y Cyd-Bwyllgor.

iv. Asedau Anghyfredol a Thaliadau i Refeniw am Asedau Anghyfredol

Nid yw Cyd-Bwyllgor Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) yn berchen ar unrhyw asedau anghyfredol. Er bod y Cyd-Bwyllgor yn gallu defnyddio tir, adeiladau, cerbydau, peiriannau ac offer, mae perchnogaeth yn parhau gyda'r awdurdodau lleol sy'n aelodau o'r Cyd-Bwyllgor. Mae'r awdurdod perthnasol yn cyllido gwelliannau o'r prif waith atgyweirio i'r asedau hyn. Ni chodir unrhyw dâl ar y Cyd-Bwyllgor am ddefnyddio'r asedau hyn.

v. Buddion Gweithwyr

Mae swyddogion sy'n cyflawni gweithgareddau Tîm Craidd y Cyd-Bwyllgor wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan Gyngor Sir Ceredigion ar ran y Cyd-Bwyllgor. Mae'r swyddogion hyn yn gymwys i fod yn aelodau o Gynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol, sy'n gynllun pensiwn cyflog terfynol buddion wedi'u diffinio.

Mae cyfraniadau cyflogwr Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol y Cyngor ar gyfer swyddogion a gyflogir ar ran y Cyd-Bwyllgor wedi'u cynnwys yng nghost gwasanaeth net y Cyd-Bwyllgor.

Mae gofynion Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 18 - Buddion Staff (IAS 18), yn ymwneud â staff sy'n cyflawni gweithgareddau Tîm Craidd y Cyd-Bwyllgor, wedi'u hadlewyrchu'n llawn yng nghyfrifon Cyngor Sir Ceredigion. Mae cyfrifon y Cyngor yn adlewyrchu'r ymrwymiad sylfaenol sydd gan y Cyngor yn y tymor hir i dalu buddion ymdeol i'w staff a gwneud iawn am unrhyw ddiffyg mewn asedau net yn y gronfa bensiwn.

vi. Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau mewn Polisiâu Cyfrifyddu ac Amcangyfrifon a Gwallau

Gall addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiâu cyfrifyddu neu i gywiro gwall sylweddol. Mae newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu yn cael eu cyfrif amdanynt fel rhai disgwylidig, h.y. yn y blynyddoedd cyfredol ac yn y dyfodol a effeithir gan y newid, ac nid ydynt yn creu addasiad cyfnod blaenorol.

Mae newidiadau i bolisiâu cyfrifyddu yn cael eu gwneud dim ond pan fyddant yn ofynnol gan arferion cyfrifyddu priodol neu os yw'r newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau ac amodau eraill ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyd-Bwyllgor. Os yw newid yn cael ei wneud, fe'i cymhwysir yn ôl-weithredol (oni nodir fel arall) drwy addasu gweddillion wrth agor a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wedi bod yn gymwys erioed.

Mae gwallau sylweddol sy'n cael eu darganfod yn y ffigurau cyfnod blaenorol yn cael eu cywiro'n ôl-weithredol drwy ddiwygio gweddillion wrth agor a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

vii. Digwyddiadau Ar Ôl Dyddiad y Fantolen

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sydd yn digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan fydd y Datganiad Cyfrifon yn cael ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sydd yn rhoi tystiolaeth o amodau a oedd yn bresennol ar ddiwedd y cyfnod adrodd – addasir y Datganiad Cyfrifon er mwyn adlewyrchu'r cyfryw ddigwyddiadau
- y rhai hynny sydd yn ddangosol o amodau a oedd yn deillio ar ôl y cyfnod adrodd - nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r cyfryw ddigwyddiadau, ond lle byddai gan gategori o ddigwyddiadau effaith sylweddol, datgelir yn y nodiadau natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol amcangyfrifedig.

viii. Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth

Os telir drwy gyfrif, drwy randaliadau, neu ar ffurf ôl-daliadau, cydnabyddir grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau trydydd parti (gan gynnwys rhoddion) fel dyladwy i'r Cyd-Bwyllgor pan fo sicrwydd rhesymol bod:

- y Cyngor yn cydymffurfio a'r amodau sydd ynghlwm i'r taliadau, a
- grantiau neu'r chyfraniadau yn cael eu derbyn.

Ni chaiff symiau a gydnabyddir fel rhai sydd yn daladwy i'r Cyd-Bwyllgor eu credydu i'r Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant hyd y bodlonir amodau sydd ynghlwm wrth y grant neu'r cyfraniad. Amodau yw'r gofynion sydd yn nodi y bydd buddiannau economaidd yn y dyfodol neu wasanaeth posibl a ymgorfforir yn yr ased a geir drwy ddefnyddio grant neu gyfraniad, i fod er lles y derbynnydd fel y nodir, neu fuddiannau economaidd yn y dyfodol neu wasanaeth bosibl i'w ddychwelyd i'r sawl sydd yn ei drosglwyddo.

Caiff arian a roddir ymlaen llaw ar ffurf grantiau a chyfraniadau a nas bodlonwyd yr amodau, eu cario yn y Fantolen fel credydwy. Pan fodlonir amodau, credydir y grant neu'r cyfraniad i'r llinell gwasanaeth perthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw a briodolir) yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant.

ix. Gorbenion a Gwasanaethau Cymorth

Mae costau'r gorbenion a gwasanaethau cymorth yn cael eu codi ar y rheiny sy'n elwa o'r cyflenwad neu'r gwasanaeth yn unol ag egwyddorion costio Cod Ymarfer Adrodd ar Wasanaeth CIPFA 2013/14 (SeRCOP). Mae a wnelo sylfeini'r dyraniadau, lle y bo hynny'n bosib, â'r defnydd gwirioneddol a wneir o'r gwasanaeth.

x. **Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn**

Darpariaethau

Mae darpariaethau'n cael eu gwneud os yw digwyddiad wedi codi sy'n golygu bod rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol gan y Cyd-Bwyllgor sydd yn ôl pob tebyg yn gofyn am daliad llawn drwy drosglwyddo buddion economaidd neu botensial gwasanaeth, a gall amcangyfrif dibynadwy gael ei wneud o swm y rhwymedigaeth. Ni all darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifon gael eu gorfodi'n gyfreithiol a gellir eu casglu yn unig o gyfres o ffeithiau mewn sefyllfa arbennig, felly nid yw eu cynnwys yn y cyfrifon yn golygu bod y rhwymedigaeth wedi cael ei derbyn.

Codir darpariaethau fel traul ar y llinell gwasanaeth briodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r y Cyd-Bwyllgor yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a chânt eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y Fantolen o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth, gan gymryd i ystyriaeth y risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Pan fydd taliadau'n cael eu gwneud, cânt eu codi ar y ddarpariaeth sy'n cario ar y Fantolen. Mae taliadau llawn amcangyfrifedig yn cael eu hadolygu ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol - os yw'n llai tebygol y bydd trosglwyddo buddion economaidd yn ofynnol (neu daliad llawn is na'r hyn a ddisgwyliwyd), mae'r ddarpariaeth yn cael ei gwrth-droi a'i gredydu yn ôl i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Os disgwylir i ran neu'r cyfan o'r taliad sy'n ofynnol i dalu darpariaeth gael ei adennill gan barti arall (e.e. o hawliad yswiriant), fe'i cydnabyddir fel incwm yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr dim ond os yw bron yn sicr y bydd yr ad-daliad yn cael ei dderbyn os yw'r Cyd-Bwyllgor yn bodloni'r rhwymedigaeth.

Rhwymedigaethau Amodol

Mae rhwymedigaeth amodol yn codi pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth bosibl i'r Cyd-Bwyllgor, y mae ei bodolaeth ond yn cael ei gadarnhau gan y digwyddiad neu fel arall gan ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyd-Bwyllgor. Mae rhwymedigaethau amodol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle fel arall byddai darpariaeth yn cael ei wneud ond naill ai nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu ni ellir mesur swm y rhwymedigaeth mewn modd dibynadwy.

Nid yw rhwymedigaethau amodol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen, ond yn cael eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

Asedau Amodol

Mae ased amodol yn codi pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi ased posibl i'r Cyd-Bwyllgor y mae ei bodolaeth ond yn cael ei gadarnhau gan y digwyddiad neu fel arall gan ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyd-Bwyllgor.

Nid yw asedau amodol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen, ond yn cael eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon lle mae'n debygol y bydd mewnlif o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth.

xi. Treth Ar Werth (TAW)

Cafodd y Cyfrifon eu paratoi gan hepgor TAW, i'r graddau y mae modd ei hadennill.

2. EITEMAU SYLWEDDOL O INCWM A GWARIANT

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor unrhyw eitemau sylweddol o Incwm a Gwariant i'w hadrodd sy'n gofyn am unrhyw esboniad pellach.

3. GORBENION A GWASANAETHAU CYMORTH

Cyngor Sir Ceredigion yw'r "Awdurdod Cyllid Arweiniol" dynodedig ar ran y Cyd-Bwyllgor. Codir tâl am gymorth cyfrifyddu ar gyfer y rôl rheolaeth ariannol a adlewyrchir yn y datganiad Incwm a Gwariant o dan Gyflenwadau a Gwasanaethau.

Cyngor Sir Ceredigion yw'r "Awdurdod Arweiniol" hefyd ar gyfer darparu'r swyddogaeth Adnoddau Dynol ar gyfer staff y Tîm Craidd a rolau'r Swyddog Cyfreithiol a Monitro ar ran y Cyd-Bwyllgor. Mae hyn yn cynnwys Cyngor Sir Ceredigion yn cyflogi swyddogion yn uniongyrchol ar ran y Cyd-Bwyllgor i ddarparu gwasanaethau cymorth canolog ar gyfer trefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau TraCC. Adlewyrchir y costau hyn yn y Datganiad o Incwm a Gwariant ar y llinell Gweithwyr.

Mae costau teithio sy'n codi i swyddogion wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Incwm a Gwariant ar y llinell Cludiant (£5,789).

4. INCWM A GWARIANT DADANSODDIAD

	Rhaglen		Mentrau Diogelwch ar y Ffyrdd	Gwasanaethau Bws	Tocynnau Rhatach	Cyfanswm
	Cyllid y Tîm Craidd £	Rhanbarthol £				
Gwariant						
Gweithwyr	130,826	0	0	0	0	130,826
Cludiant	5,789	0	0	781,455	0	787,244
Cyflenwadau a Gwasanaethau	12,496	2,618,000	503,000	917,766	1,481,005	5,532,267
Taliadau Trydydd Parti	15,895	0	0	0	0	15,895
Cyfanswm Gwariant	165,006	2,618,000	503,000	1,699,221	1,481,005	6,466,232
Incwm						
Grantiau'r Llywodraeth	(165,000)	(2,618,000)	(503,000)	(1,697,383)	(1,481,005)	(6,464,388)
Incwm Arall	(6)	0	0	(1,838)	0	(1,844)
Cyfanswm Incwm	(165,006)	(2,618,000)	(503,000)	(1,699,221)	(1,481,005)	(6,466,232)
Gwariant Net	0	0	0	0	0	0

Cludiant

Mae gwariant Trafnidiaeth Gwasanaethau Bws o £781,455 yn cynnwys grant a dalwyd i Gynghorau Sir Powys a Cheredigion (y Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Lleol gynt), ac i ddarparwyr gwasanaeth bws lleol amrywiol o fewn Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC), Ardal Canolbarth Cymru. Gyda'i gilydd maen nhw'n ffurfio'r Grant Cymorth Gwasanaethau Bws, sef y cynllun Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bws gynt.

Cyflenwadau a Gwasanaethau

Mae gwariant Cyflenwadau a Gwasanaethau a ddangosir o dan bob rhaglen (ac eithrio costau tîm craidd) yn grantiau sy'n cael eu talu i Awdurdodau Lleol partner sy'n gyfrifol am gwblhau prosiectau penodol ar ran TraCC sy'n helpu i ddatblygu, gweithredu a monitro'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'i brosiectau unigol.

5. DYLEDWYR

	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2013
	£	£
Cyrff Llywodraeth Ganol	1,460,773	230,765
* Awdurdodau Lleol Eraill	436,144	0
	1,896,917	230,765

* Nid yw Cyd-Bwyllgor Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) yn gweithredu ei gyfrif banc ei hun. Mae ei holl drafodion arian yn cael eu prosesu drwy gyfrif banc Cyngor Sir Ceredigion. Felly, mae'r ffigur dyledwyr ar Fantolen 31 Mawrth 2014 yn cynnwys dyledwr o £436,144 i adlewyrchu'r gweddill arian a ddeler gan Gyngor Sir Ceredigion ar ran y Cyd-Bwyllgor.

6. CREDYDWYR

	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2013
	£	£
* Awdurdodau Lleol Eraill	(1,785,444)	(143,883)
Cyrff Llywodraeth Ganol	(24,594)	(47,079)
Endidau ac Unigolion Eraill	(86,879)	(39,803)
	(1,896,917)	(230,765)

* Nid yw Cyd-bwyllgor Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) yn gweithredu ei gyfrif banc ei hun. Mae ei holl drafodion arian yn cael eu prosesu drwy gyfrif banc Cyngor Sir Ceredigion. Mae Awdurdodau Lleol eraill ar gyfer 31 Mawrth 2013 yn cynnwys credydwr o £143,883 i adlewyrchu'r arian sy'n ddyledus i Gyngor Sir Ceredigion.

7. LWFANSAU AELODAU

Mae Bwrdd TraCC yn cynnwys chwe Chynghorydd Sir, dau o bob awdurdod lleol sy'n rhan o'r consortiwm.

Nid yw'r Cyd-Bwyllgor (TraCC) yn talu cyflogau neu dreuliau'r aelodau hyn. Mae Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Powys a Chyngor Gwynedd yn talu cyflogau a threuliau ar gyfer eu dau aelod eu hunain.

8. TÂL SWYDDOGION

Mae *Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2013/14* yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddatgelu staff y mae eu tâl am y flwyddyn (ac eithrio cyfraniadau pensiwn cyflogeion), yn fwy na £50,000. Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor unrhyw staff y mae eu tâl am y flwyddyn yn fwy na £50,000.

9. COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Datganiad o Gyfrifon wedi cael eu cynhyrchu ar gyfer y Blynyddoedd Ariannol 2012/13 a 2013/14, i'w cyhoeddi ar 30 Mehefin 2014. Bydd y costau ar gyfer archwilio'r Datganiad o Gyfrifon hyn gan archwilwyr allanol Cyngor Sir Ceredigion yn codi yn ystod y flwyddyn 2014/15.

10. INCWM GRANT

Roedd y Cyd-Bwyllgor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn 2013/14.

	£
LIC - Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol - Cyllid craidd	165,000
LIC - Rhaglen Trafnidiaeth Rhanbarthol	2,618,000
LIC - Mentrau Diogelwch ar y Ffyrdd	503,000
LIC - Gwasanaethau Bws	1,697,382
LIC - Tocynnau Rhatach	1,481,006
	<u>6,464,388</u>

LIC = Llywodraeth Cymru

11. TRAFODION PARTION PERTHNASOL

Mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor ddatgelu trafodion sylweddol â phartion perthnasol - cyrff neu unigolion a chanddynt botensial i reoli'r Cyd-Bwyllgor, neu ddylanwadu arno, neu i gael eu rheoli gan y Cyd-Bwyllgor, neu'u dylanwadu ganddo. Mae'r trafodion hyn yn caniatáu i'r darllenwr asesu i ba raddau y gallai'r Cyd-Bwyllgor fod wedi'i gyfyngu o ran ei allu i weithredu'n annibynnol neu i ba raddau y mae'n meddu ar y gallu i gyfyngu ar ryddid parti arall i fargeinio â'r Cyd-Bwyllgor.

Llywodraeth Ganol

Mae gan lywodraeth ganol ddylanwad sylweddol dros weithrediadau cyffredinol y Cyd-Bwyllgor - mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol y mae'r Cyd-Bwyllgor yn gweithredu o'i fewn, yn darparu'r mwyafrif o'i gyllid ar ffurf grantiau ac yn rhagnodi telerau nifer o'r trafodion sydd gan y Cyd-Bwyllgor â phartion eraill. Mae'r grantiau a dderbynnir gan adrannau'r llywodraeth wedi'u hamlinelli yn Nodyn 10.

Awdurdodau Lleol

Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Powys a Chyngor Gwynedd yw'r awdurdodau sy'n ffurfio consortiwm TraCC. Rhoddir manylion am drafodion sylweddol â'r tri Chyngor hyn ar ffurf darparu cyllid grant mewn man arall yn y cyfrifon.

Aelodau

Mae gan yr aelodau ar fwrdd Cyd-Bwyllgor TraCC reolaeth uniongyrchol dros weithgareddau ariannol a gweithredu'r Cyd-Bwyllgor. Nid oes unrhyw drafodion ariannol rhwng yr aelodau hyn a'r Cyd-Bwyllgor oherwydd mae eu cyflogau yn cael eu talu gan eu Hawdurdod Lleol (Nodyn 7).

12. CYNLLUNIAU CYFRANIADAU BUDDION WEDI'U DIFFINIO

Mae swyddogion a gyflogir gan Gyngor Sir Ceredigion ac sy'n ymgymryd â gweithgareddau Tîm Craidd y Cyd-Bwyllgor yn gallu cymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol, cynllun statudol buddion wedi'u diffinio, a weinyddir gan Gyngor Sir Gaerfyrddin. Mae hwn yn gynllun cyflog terfynol buddion wedi'u

diffinio a gyllidir sy'n golygu bod y Cyngor a gweithwyr yn talu cyfraniadau i'r gronfa, wedi'u cyfrifo ar lefel sy'n bwriadu cydbwysu'r rhwymedigaethau pensiwn ag asedau buddsoddi.

Mae Cyfrif Incwm a Gwariant y Cyd-Bwyllgor yn cynnwys cyfraniadau'r cyflogwr sy'n cael eu talu i Gynllun y Llywodraeth Leol o fewn y llinell Costau Gweithwyr.

Mae manylion llawn am y cynllun i'w gweld yn Natganiad o Gyfrifon Cyngor Sir Ceredigion 2013/14.

13. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau ôl Fantolen ar gyfer 2013/14.

14. AWDURDODI'R CYFRIFON I'W CYHOEDDI

Awdurdodir y Datganiad Cyfrifon i'w gyhoeddi gan Gyfarwyddwr Strategol Adnoddau Corfforaethol ar 23 Medi 2014.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Mae'r Datganiad hwn wedi cael ei baratoi yn unol â'r canllawiau a gynhyrchwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (C.I.P.F.A.) a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr Awdurdodau Lleol (S.O.L.A.C.E.), o'r enw 'Cyflawni Llywodraethu Da yn y Fframwaith Llywodraethu Lleol'. Mae'n corffori elfennau o reolaeth ariannol fewnol sy'n ofynnol gan y 'Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.'

Cwmpas Cyfrifoldeb

Mae Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) (y Pwyllgor) yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn mynd rhagddo o fewn y gyfraith ac i safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrif amdano yn briodol, a'i ddefnyddio yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae dyletswydd gan y Pwyllgor hefyd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y mae ei swyddogaethau'n cael eu hymarfer, a rhoi sylw i gyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei faterion a hwyluso ymarfer ei swyddogaethau yn effeithiol, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Pwrpas y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd a ddefnyddir i gyfarwyddo a rheoli'r Pwyllgor a'i weithgareddau, a thrwyddo mae'n atebol i'r gymuned, yn ymgysylltu â'r gymuned ac yn arwain y gymuned. Mae'r system o reolaeth fewnol yn rhan arwyddocaol o'r fframwaith hwnnw. Mae'r system o reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n ceisio adnabod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Pwyllgor, gwerthuso a yw'r risgiau hynny yn debygol o gael eu realeiddio a'r effaith os ydyn nhw'n cael eu realeiddio, a'u rheoli'n effeithiol.

Y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Cyd-Bwygllor yn cael ei lywodraethu drwy'r Cytundeb ar y Cyd diwygiedig dyddiedig 1 Awst 2013 sy'n sefydlu Cyngor Sir Ceredigion fel y Corff Gweinyddol a Chyllid Arweiniol, gan amlinellu yr un pryd sut y mae'r Pwyllgor yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau. Mae hefyd yn cynnwys rhoi cyfrifoldebau ychwanegol i'r Cyd-Bwygllor yn dilyn newid yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cyllido trafnidiaeth ranbarthol, gan gynnwys gwasanaethau bws yng Nghymru.

Mae'r holl adroddiadau a ystyrir gan y Pwyllgor a chofnodion y penderfyniadau a wnaed, oni bai eu bod yn gyfrinachol, ar gael ar wefannau TraCC a Chyngor Sir Ceredigion.

Mae'r Pwyllgor wedi'i lywio a'i reoli gan y Fframwaith Llywodraethu drwy'r systemau a'r prosesau sydd yn eu lle. Mae'r Fframwaith yn galluogi'r Pwyllgor i fonitro cyflawni ei amcanion strategol ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost-effeithiol.

Mae'r system o reolaeth fewnol yn rhan arwyddocaol o'r fframwaith hwnnw ac wedi'i gynllunio i reoli risg i lefel resymol. Ni all ddileu'r holl risg o fethu â

chyflawni polisiau, nodau ac amcanion ac felly gall roi sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn unig. Mae'r system o reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n ceisio adnabod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion y Cyd-Bwyllgor, gwerthuso a yw'r risgiau hynny yn debygol o gael eu realeiddio a'r effaith os ydyn nhw'n cael eu realeiddio, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn defnyddio'r canlynol yn ei ddyletswyddau llywodraethu:

- Gweithdrefnau cyfrifyddu a Rheoliadau Ariannol Cyngor Sir Ceredigion. Cyfarwyddwr Strategol yr Awdurdod ar gyfer Adnoddau sy'n gyfrifol am weinyddiad priodol materion ariannol y Pwyllgor, fel sy'n ofynnol gan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer tendro a gosod contractau wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Ariannol Cyngor Sir Ceredigion.
- Trefniadau Rheoli Trysorlys Cyngor Sir Ceredigion, sy'n dilyn arferion proffesiynol ac sy'n destun adolygiadau blynyddol gan Bwyllgor Archwilio a Chyngor Cyngor Sir Ceredigion.
- Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd Cyngor Sir Ceredigion yw'r 'Swyddog Monitro' dynodedig yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, ac mae'n sicrhau cydymffurfiaeth â pholisiau, gweithdrefnau, cyfreithiau a rheoliadau sefydledig.
- Mae Pwyllgor Archwilio Cyngor Sir Ceredigion yn ystyried effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Cyngor, fel y bo'n gymwys i'r Cyd-Bwyllgor, trwy raglen waith bwrpasol. Mae'n monitro gwaith yr archwiliwyr (mewnol ac allanol) a'r arolygwyr.
- Mae staff Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ceredigion yn gweithredu i'r safonau a osodir yn y 'Cod Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig, 2006' a gynhyrwyd gan C.I.P.F.A., ac mae ei rôl a'i statws wedi'u hamlinellu yng Nghylch Gorchwyl Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ceredigion. Mae'r Prif Archwiliwr Mewnol yn darparu adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio o grynodedig o ganfyddiadau'r archwiliad a gweithgarwch a hefyd yn yr Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio mae'n rhoi barn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol amgylchedd rheoli Cyngor Sir Ceredigion. Nid oedd unrhyw archwiliadau mewnol wedi'u cynllunio ac ni chafodd unrhyw rai eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.
- Polisiau Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch Cyngor Sir Ceredigion.
- Polisi Diogelu Data Cyngor Sir Ceredigion a hefyd mae ganddo weithdrefnau yn eu lle i fodloni ei ofynion o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000.

Adolygu Effeithiolrwydd

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu yn ystod 2013/14 gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd wedi'i lywio gan reolwyr o fewn yr Awdurdod sydd yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw'r amgylchedd

Ilywodraethu a hefyd gan sylwadau'r archwilwyr allanol ac asiantaethau archwilio eraill. Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Archwilio wedi bod yn rhan o'r adolygiad.

Mae effeithiolrwydd y fframwaith Ilywodraethu yn defnyddio'r dystiolaeth a'r sicrwydd a geir drwy:

- Archwilio ac arolygu mewnol ac allanol
- Rheolaethau Ariannol
- Rheoli Risg a Pherfformiad
- Safonau cyfreithiol a moesegol
- Cyfarwyddwyr Strategol ac uwch reolwyr eraill, gan gynnwys y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro
- Pwyllgorau Archwilio a Chraffu

Sicrhau bod trefniadau rheolaeth ariannol y Cyd-Bwyllgor yn cydymffurfio â gofynion Ilywodraethu Datganiad CIPFA ar *Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol*

Cyfarwyddwr Strategol Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer Adnoddau yw Prif Swyddog Ariannol y Cyd-Bwyllgor ac mae'n:

- Adrodd yn uniongyrchol i Brif Weithredwr Ceredigion ac yn aelod allweddol o Grŵp Arweinyddiaeth Ceredigion;
- Arwain ac yn llywio swyddogaeth gyllid sydd ag adnoddau er mwyn bod yn addas i'r pwrpas;
- Yn gymwysedig yn broffesiynol ac â phrofiad addas.

Materion Rheolaeth Arwyddocaol

Mae Trafnidiaeth Canolbarth Cymru yn gweithredu o fewn yr amgylchedd rheolaeth ariannol a weithredir gan Gyngor Sir Ceredigion. Ni chynhaliwyd ac ni chynlluniwyd unrhyw Archwiliad Mewnol yn 2013/14 ar gyfer TraCC. Ni chafodd unrhyw faterion arwyddocaol eu darganfod wrth gwblhau'r datganiad uchod.

Llofnodwyd:

Y Cyngorydd A Williams
Cadeirydd y Cyd-Bwyllgor

W Gwyn Jones
Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau
Corfforaethol

.....
Dyddiad: 25/06/2014

.....
Dyddiad: 26/06/2014